



Comisiwn
y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith



Atebolrwydd am gynnyrch

Crynodeb o'r papur ymgynghori

Atebolrwydd am gynnyrch: crynodeb o'r papur ymgynghori

 Pwy ydym ni?	Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i Senedd y DU ynglŷn â diwygio'r gyfraith.
 Beth ydym yn ei wneud?	Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion dros dro i ddiwygio cyfraith atebolrwydd am gynnyrch sy'n rheoli pwy allai gael eu dal yn atebol am ddifrod a achosir gan gynhyrchion diffygiol a sut gall y rhai sydd wedi'u niweidio gael iawndal.
 Ble mae'r papur ymgynghori llawn?	Mae ar gael ar ein gwefan yn https://lawcom.gov.uk/project/product-liability/ .
 Gan bwy yr hoffem glywed?	Rydym yn croesawu ymatebion gan gynifer o randdeiliaid â phosibl, gan gynnwys defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr, cyrff y diwydiant, a busnesau o bob maint sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu, dylunio, datblygu a/neu gyflenwi cynnyrch diriaethol ac anniriaethol, gan gynnwys cynnyrch digidol. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed gan academyddion y gyfraith, cwmnïau cyfreithiol, siambrau bargyfreithwyr ac ymarferwyr sydd ag arbenigedd perthnasol.
 Sut ydw i'n ymateb?	Ymatebwch drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/law-commission/product-liability . I weld ffyrdd eraill o ymateb, ewch i https://lawcom.gov.uk/project/product-liability/ .
 Beth yw'r dyddiad cau?	Mae'r cyfnod cyflwyno'n dod i ben ar 14 Ionawr 2027.
 Beth fydd yn digwydd nesaf?	Ar ôl adolygu pob ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn penderfynu ar ein hargymhellion terfynol dros ddiwygio'r gyfraith, a byddwn yn eu cyhoeddi mewn adroddiad ddiwedd 2027. Mater i lywodraeth y dydd fydd penderfynu a fydd yn bwrw ymlaen â'n hargymhellion ai peidio.

Y crynodeb hwn

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o'n papur ymgynghori ar atebolrwydd am gynnyrch. Mae'n amlinellu'r fframwaith cyfreithiol presennol, yn nodi meysydd lle gallai fod angen diwygio, ac yn tynnu sylw at y materion allweddol, y cynigion dros dro a chwestiynau'r ymgynghoriad sy'n deillio o'n hadolygiad, gan roi cyflwyniad cryno i'r prosiect.

Mae'r holl gynigion a drafodir yn y crynodeb hwn yn rhai dros dro a dylid eu deall felly.

I gael manylion ynghylch sut i ymateb, ac i weld y papur ymgynghori llawn, ewch i <https://lawcom.gov.uk/project/product-liability/>.

Cyflwyniad i'n prosiect

Mae'r drefn bresennol ar gyfer atebolrwydd am gynnyrch yng Nghymru a Lloegr yn dyddio o'r 1980au. Fe'i cynhwysir yn Rhan 1 Deddf Gwarchod Defnyddwyr 1987 (y "CPA"), sy'n gweithredu Cyfarwydddeb Atebolrwydd Cynnyrch Ewropeaidd 1985 ("Cyfarwydddeb 1985"). Mae'r CPA yn sefydlu trefn atebolrwydd llym lle gall defnyddwyr hawlio iawndal am anaf personol neu ddifrod penodol i eiddo a achosir gan gynhyrchion diffygiol heb orfod profi bai ar ran y diffynnydd.

Gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r drefn ac ystyried pa ddiwygiadau sydd eu hangen i sicrhau ei bod yn parhau'n addas i'r diben yn yr oes ddigidol. Mae ein hadolygiad yn ceisio cynorthwyo mynediad at iawndal, galluogi busnesau i reoli risg ac atebolrwydd heb lesteirio arloesedd yn ormodol, a hyrwyddo arferion busnes cyfrifol a hyder defnyddwyr. Mae sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr amcanion hyn, yn enwedig yng nghyd-destun technolegau newydd sy'n dod i'r amlwg, yn ffocws canolog i'n hadolygiad.

Yr achos dros ddiwygio

Cyflwynwyd y CPA bron i 40 mlynedd yn ôl. Ers hynny, mae'r amrywiaeth o gynnyrch sydd ar gael i ddefnyddwyr wedi ehangu'n sylweddol, yn enwedig gyda dyfodiad technolegau digidol. Mae dyfodiad llwyfannau ar-lein hefyd wedi trawsnewid y ffordd y mae cynnyrch yn cael ei farchnata a'i brynu. Nid yw'r drefn atebolrwydd am gynnyrch wedi datblygu ar yr un cyflymder â'r datblygiadau hyn.

Ar ben hynny, mae cwestiynau ynghylch a yw'r CPA wedi cyflawni ei nodau gwreiddiol yn llawn, sef darparu llwybr clir a syml at iawndal. Er bod y gyfraith achosion yr adroddwyd arni dan y CPA yn gyfyngedig, mae'n awgrymu y gallai hawlwr wynebu rhwystrau sylweddol o ran tystiolaeth wrth brofi diffyg ac achosiaeth, yn enwedig mewn achosion technegol cymhleth.

Yn erbyn y cefndir hwn, gall y drefn bresennol adael defnyddwyr sydd wedi'u hanafu heb warchodaeth ddigonol, creu ansicrwydd i weithgynhyrchwyr a phartïon atebol eraill ynghylch eu hatebolrwydd posibl, a golygu bod yswirwyr yn agored i risgiau annisgwyl.

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi diwygio ei fframwaith atebolrwydd am gynnyrch yn ddiweddar mewn ymateb i heriau tebyg, gan fabwysiadu cyfarwydddeb atebolrwydd cynnyrch newydd (y "Cyfarwydddeb Newydd") yn 2024.



Trosolwg o'r Ddeddf Gwarchod Defnyddwyr (CPA)

Amcan canolog y CPA yw darparu trefn atebolrwydd llym sy'n cydbwysu gwarchod defnyddwyr â chymorth ar gyfer busnes, arloesi a thwf. Mae'n ceisio sicrhau'r cydbwysedd hwnnw drwy alluogi hawlwr i gael iawndal am ddifrod a achosir gan gynnyrch diffygiol heb orfod profi bai, gan gyfyngu ar amlygiad diffynyddion drwy nifer o amddiffyniadau penodol, cyfnod cyfyngu a chyfnod stop pell o ddeng mlynedd sy'n dileu hawliadau nad ydynt wedi cael eu dwyn o fewn y cyfnod hwnnw.

Mae'r CPA yn nodi elfennau craidd hawliad, gan gynnwys beth sy'n gymwys fel cynnyrch; pwy allai gael ei ddal yn atebol; beth yw diffyg; pa fathau o ddifrod y gellir eu digolledu; yr amddiffyniadau sydd ar gael; a'r cyfyngiadau a'r cyfnodau stop pell perthnasol.

Cynnyrch: Mae'r CPA yn diffinio "cynnyrch" fel unrhyw nwyddau a thrydan, gan gynnwys cynnyrch sy'n rhan o gynnyrch arall, boed fel cydran, deunydd crai, neu fel arall. Mae'n amlwg bod eitemau diriaethol yn dod o fewn y diffiniad, ond mae ansicrwydd ynghylch a yw'n ymestyn i dechnolegau digidol, fel meddalwedd a systemau deallusrwydd artifisial. Byddai ein cynigion dros dro yn ehangu'r diffiniad o "cynnyrch" i gynnwys meddalwedd a systemau deallusrwydd artifisial (boed hynny wedi'u darparu ar gyfrwng ffisegol neu wedi'u plannu ynddo neu wedi'u cyflenwi'n ddigidol), yn ogystal â nodweddion a chydannau dylunio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill. Byddent hefyd yn ceisio sicrhau bod y diffiniad yn parhau i allu darparu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol.

Pwy all fod yn atebol: Gellir cyflwyno hawliadau atebolrwydd am gynnyrch yn erbyn cynhyrchwyr, y rhai sy'n brandio cynnyrch eu hunain, mewnforwyr, ac, mewn rhai

amgylchiadau, cyflenwyr cynnyrch nad ydynt yn nodi pwy yw'r cynhyrchydd cyfrifol, y sawl sy'n hunan-frandio, y sawl sy'n mewnforio neu eu cyflenwr eu hunain. Byddai ein cynigion dros dro yn ehangu'r ystod o bobl a allai gael eu dal yn atebol i adlewyrchu'r ffyrdd newydd y mae cynhyrchion bellach yn cael eu marchnata a'u gwerthu, yn enwedig drwy lwyfannau ar-lein a chadwyni cyflenwi cymhleth.

Diffyg: Mae cynnyrch yn ddiffygiol os bydd ei ddiogelwch yn disgyn islaw'r lefel y mae gan unigolion hawl i'w disgwyl fel arfer. Wrth benderfynu a yw'r safon honno'n cael ei bodloni, rhaid ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys sut mae'r cynnyrch yn cael ei farchnata, ei ddeunydd pecynnu a'i gyfarwyddiadau, a'r hyn y gellid disgwyl yn rhesymol i rywun ei wneud ag ef. Nid yw cynnyrch yn cael ei ystyried yn ddiffygiol ddim ond oherwydd bod fersiynau mwy diogel yn cael eu datblygu'n ddiweddarach. Mae'r diffiniad eang o ddiffyg wedi arwain at ansicrwydd a gwahanol ddulliau gweithredu yn y llysoedd. Byddai ein cynigion dros dro yn rhoi canllawiau cliriach a mwy strwythuredig ar sut i'w rhoi ar waith.

Difrod y gellir ei ddigolledu: Mae'r CPA yn caniatáu hawliadau am farwolaeth, anaf personol, a rhai mathau o ddifrod i eiddo. Ni ellir hawlio am golled economaidd yn unig, gan gynnwys colli neu ddifrod i'r cynnyrch diffygiol ei hun. Dim ond os yw'r eiddo wedi'i fwriadu at ddefnydd preifat yn bennaf a bod gwerth y golled yn fwy na £275 y gellir digolledu am y difrod. Byddai ein cynigion dros dro yn egluro'r mathau o ddifrod sy'n dod dan y CPA, gan gynnwys i ba raddau y gellir cael iawndal am niwed seiciatrig, ac hefyd yn ystyried a yw'r cyfyngiadau presennol yn parhau i fod yn briodol.

Amddiffyniadau: Mae'r CPA yn darparu amrywiaeth o amddiffyniadau, gan gynnwys lle'r oedd y diffyg yn deillio o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol, lle nad oedd y diffynnydd wedi cyflenwi'r cynnyrch

(neu wedi gwneud hynny y tu allan i gynnal busnes a heb fwriad o wneud elw), lle nad oedd y diffyg yn bodoli adeg cyflenwi, a lle na ellid bod wedi canfod y diffyg o ystyried sefyllfa'r wybodaeth wyddonol a thechnegol bryd hynny. Mae ein cynigion dros dro yn ystyried a yw'r amddiffyniadau hyn yn parhau i weithredu'n deg, a, lle bo angen, byddai'n eu haddasu i'r heriau a achosir gan gynnyrch digidol, cysylltiedig sy'n cael ei ddiweddarau dro ar ôl tro.

Cyfnod cyfyngu a chyfnod stop pell: Yn gyffredinol, rhaid i hawliadau dan y CPA gael eu dwyn o fewn tair blynedd i'r diweddaraf o'r dyddiad y cronnodd y rheswm dros yr achos a'r dyddiad y daeth yr hawlydd i wybod am yr anaf neu'r difrod. Ar ben hynny, mae "stop pell" yn berthnasol i ddileu unrhyw hawl i ddwyn achos ddeng mlynedd ar ôl i'r cynnyrch gael ei gyflenwi. Byddai ein cynigion dros dro yn ailosod cyfnod y stop pell yn dilyn addasiad sylweddol i gynnyrch ac yn ei ymestyn i 25 mlynedd mewn achosion o niwed cudd.



CIPOLWG AR: EIN PRIF GYNIGION DROS DRO

- Diffiniad o “gynnyrch” sy’n ehangach ac yn addas ar gyfer y dyfodol, i gynnwys meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial (boed hynny wedi’u darparu ar gyfrwng ffisegol neu wedi’u plannu ynddo neu wedi’u cyflenwi’n ddigidol), yn ogystal â nodweddion a chydannau dylunio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill.
- Diffiniad wedi’i ehangu o “gyflenwi”, lle mae cynhyrchion yn cael eu trin fel rhai sy’n cael eu cyflenwi ni waeth sut maen nhw’n cael eu darparu, gan gynnwys drwy lwytho i lawr neu ddulliau digidol eraill, ynghyd ag esboniad o atebolrwydd lle mae cynhyrchion wedi cael eu haddasu’n sylweddol ar ôl eu cyflenwi.
- Categoriâu newydd o unigolion a allai fod yn atebol i adlewyrchu cymhlethdod cynyddol cadwyni cyflenwi modern, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau cyflawni, marchnadoedd ar-lein a chynrychiolwyr awdurdodedig y DU.
- Fframwaith cliriach a mwy strwythuredig ar gyfer penderfynu beth yw “diffyg”.
- Rhagdybiaeth amodol o ddiffyg a mecanwaith rhannu risg mewn achosion sy’n cynnwys anawsterau tystiolaeth eithriadol.
- Fframwaith newydd ar gyfer iawndal am niwed seiciatrig.
- Iawndal am ddifrod i eiddo a ddefnyddir at ddibenion preifat a phroffesiynol cymysg.
- Iawndal am ddinistrio a llygru data.
- Ailosod y cyfnod stop pell ar ôl i gynhyrchydd addasu cynnyrch yn sylweddol ac ymestyn y cyfnod stop pell i 25 mlynedd mewn achosion o niwed cudd.

Diffiniad o “gynnyrch” dan y CPA (Pennod 2)

Y gyfraith gyfredol

Cafodd y diffiniad cyfredol o “gynnyrch” dan y CPA ei ddylunio’n bennaf gyda nwyddau diriaethol mewn golwg. Nid yw’n darparu’n hawdd ar gyfer technolegau digidol fel meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial a allai achosi anaf neu ddifrod. Mae hyn yn gadael bwlch posibl yn y drefn.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Rydym yn cynnig diffiniad o “gynnyrch” sy’n ehangach ac yn fwy addas ar gyfer y dyfodol, sy’n cynnwys meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial, sut bynnag y cyflenwir hwy, yn ogystal â nodweddion a chydannau dylunio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill.

Meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial

Mae meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial yn cael eu defnyddio fel offer gan unigolion i gyflawni ystod eang o swyddogaethau, fel dadansoddi data neu, yn achos systemau deallusrwydd artiffisial, cynhyrchu cynnwys. Maent yn aml yn disodli neu’n rheoli prosesau a arferai fod yn fecanyddol, a gallant arwain at risg o anaf personol neu ddifrod i eiddo. Yn hyn o beth, maent yn debyg i gynhyrchion ffisegol.

Am y rhesymau hyn, rydym yn cynnig y dylid trin meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial fel “gynnyrch” dan y CPA. Dylai hyn fod yn wir p’un a ydynt yn cael eu darparu ar gynnyrch ffisegol neu wedi’u plannu ynddo neu’n cael eu cyflenwi’n ddigidol. Nid yw eu natur a’u proffil diogelwch yn dibynnu ar sut y maent yn cael eu darparu.

Mae’r achos i dechnolegau o’r fath ddod o fewn cwmpas y CPA yn arbennig o gryf o ystyried yr anawsterau tystiolaeth y gallant eu creu i hawlwyd. Mae hyn yn arbennig o wir am systemau deallusrwydd artiffisial, sy’n gallu ei gwneud yn anodd iawn i hawlwyd sefydlu sut a pham mae niwed wedi digwydd. Gwaethygir yr anawsterau hyn gan anghymesuredd gwybodaeth rhwng yr hawlwydd a’r datblygwr, gyda’r olaf fel arfer â mewnwelediad unigryw i ddyluniad, hyfforddiant a gweithrediad y system. Felly, gall sefydlu bai fod yn eithriadol o heriol. Dyma’r union fath o gymhlethdod tystiolaethol y cyflwynwyd trefn atebolrwydd caeth y CPA i fynd i’r afael ag ef.

Er mwyn ategu’r cynnig hwn, rydym hefyd yn ceisio nodi rhai o nodweddion craidd meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial a fyddai’n egluro ffiniau’r drefn atebolrwydd am gynnyrch a hyrwyddo sicrwydd cyfreithiol. Mewn perthynas â meddalwedd, rydym yn nodi fel ei elfennau craidd y cod neu’r cyfarwyddiadau eraill sy’n gallu achosi i beiriant gyflawni swyddogaeth, tasg neu ganlyniad penodol, a’r swyddogaethau dilynol a gynhyrchir pan fydd y cyfarwyddiadau hynny’n cael eu rhoi ar waith.

Mewn perthynas â systemau deallusrwydd artiffisial, rydym yn nodi nifer o nodweddion sy’n gysylltiedig â systemau o’r fath, gan gynnwys gweithrediad peiriannau, cynhyrchu allbynnau o fewnbynnau, ymreolaeth wrth gynhyrchu’r allbynnau hynny, defnyddio technegau datblygu perthnasol, a’r posibilrwydd o hunan-ddysgu ar ôl eu rhoi ar waith.

Rydym yn gofyn i ymgynghoreion a yw’r nodweddion hyn yn darparu sail ddefnyddiol ar gyfer nodi meddalwedd a systemau deallusrwydd artiffisial at ddibenion y CPA, neu a fyddai dulliau amgen yn well wrth i dechnoleg barhau i esblygu.

Meddalwedd ffynhonnell agored

Rydym yn ymwybodol o bryderon y gallai gosod atebolrwydd caeth ar ddatblygwyr meddalwedd ffynhonnell agored annog pobl i beidio â chydweithio o ran datblygu, arloesi ac ymchwilio. Mae'r pryderon hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried bod meddalwedd ffynhonnell agored, sydd ar gael i eraill ei defnyddio, ei haddasu a'i hailddosbarthu, heb unrhyw gost iddynt fel arfer, bellach yn eang ac yn rhan sylweddol o sylfaen godau llawer o gymwysiadau poblogaidd.

Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig eithriad penodol ar gyfer meddalwedd ffynhonnell agored anfasnachol. Y rheswm am hyn yw mai'r cwestiwn allweddol dan y CPA yw nid a yw meddalwedd yn ffynhonnell agored, ond a yw'n cael ei chyflenwi yn ystod busnes a/neu gyda'r bwriad o wneud elw. Dan ddarpariaethau presennol y Ddeddf, nid yw cynhyrchydd sy'n cyflenwi cynnyrch y tu allan i gynnal busnes heb fwriad o wneud elw yn atebol dan y CPA. Yn unol â hynny, byddai datblygwyr sy'n sicrhau bod meddalwedd ffynhonnell agored ar gael ar sail wirioneddol anfasnachol yn disgyn y tu allan i'r gyfundrefn yn gyffredinol.

I'r gwrthwyneb, byddai meddalwedd ffynhonnell agored a gyflenwir wrth gynnal busnes a/neu gyda'r bwriad o wneud elw yn dod o fewn cwrpas y CPA, hyd yn oed lle nad yw defnyddwyr yn talu amdani'n uniongyrchol. Er enghraifft, gellir darparu meddalwedd yn rhad ac am ddim wrth gynhyrchu refeniw drwy gymorth cysylltiedig, cynnal a chadw neu wasanaethau eraill.

Cyfyngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill

Mae llwyfannau cyfyngau cymdeithasol bellach yn chwarae rhan ganolog mewn bywyd bob dydd. Maent yn gallu achosi niwed ac mae'r Llywodraeth wedi cydnabod y risgiau y maent yn eu hachosi, sy'n cael eu trafod yn

eang yn y cyfyngau, ac sy'n destun ymgyfreitha mewn awdurdodaethau eraill. Y prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu diogelwch ar-lein mewn perthynas â llwyfannau ar-lein yw Deddf Diogelwch Ar-lein 2023. Mae'n mynnu bod llwyfannau cyfyngau cymdeithasol, ymysg dyletswyddau eraill, yn asesu ac yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnwys anghyfreithlon drwy fesurau cymesur sy'n ymwneud â dylunio swyddogaethau, algorithmau a nodweddion eraill o ran llwyfannau. Felly, mae ei phwyslais ar reoleiddio a rheoli risg, yn hytrach nag ar ddarparu iawndal i unigolion. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i unigolion gael iawndal am niwed a achosir gan ddyluniad neu weithrediad llwyfan, gan adael bwlch posibl yn y gyfraith.

Yn erbyn y cefndir hwn, rydym yn cynnig y dylid trin cydrannau dylunio a nodweddion llwyfannau cyfyngau cymdeithasol fel cynnyrch at ddibenion y CPA, gan roi llwybr i unigolion at iawndal lle mae diffyg yn y cydrannau a'r nodweddion hynny'n achosi niwed. Er ein bod yn canolbwyntio ar llwyfannau cyfyngau cymdeithasol oherwydd y sylw y maent wedi'i ddenu, mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i llwyfannau ar-lein eraill, fel llwyfannau gemau.

Gellir ystyried bod y cynnig hwn yn adeiladu ar ein cynnig ehangach y dylid trin meddalwedd fel cynnyrch dan y CPA. Byddai'r feddalwedd sy'n sail i llwyfannau cyfyngau cymdeithasol hefyd yn dod o fewn y drefn. Fodd bynnag, rydym yn mynd ymhellach drwy nodi'r cydrannau a'r nodweddion dylunio penodol a ddylai gael eu trin eu hunain fel cynhyrchion at ddibenion y CPA.

Byddai cydrannau dylunio a nodweddion llwyfannau cyfyngau cymdeithasol a fyddai'n dod o fewn y CPA yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- algorithmau, fel algorithmau argymhell sy'n curadu cynnwys a ddangosir i ddefnyddwyr;

- nodweddion sy'n ymwneud â chyflwyno cynnwys, fel nodweddion "rholio diddiwedd" ac awtochwarae fideo;
- nodweddion sy'n rheoli rhyngweithio defnyddwyr, fel y gallu i hoffi, rhannu neu wneud sylwadau ar negeseuon;
- unrhyw nodweddion byrhoedlog (lle mai dim ond nifer cyfyngedig o weithiau y gellir cael mynediad ar gynnwys);
- hysbysiadau personol a anfonir at ddefnyddwyr;
- yr offer a ddarperir i ddefnyddwyr olygu neu labelu cynnwys, fel hidlyddion cynnwys;
- y mecanweithiau sy'n caniatáu neu'n cyfyngu ar fynediad defnyddwyr, fel prosesau dilysu oedran, rheolaethau rhieni a chyfyngiadau amser o flaen sgrin; ac
- unrhyw ddulliau adrodd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr roi gwybod am gynnwys anghyfreithlon neu niweidiol.

Mae'r cydrannau a'r nodweddion hyn yn rhan o'r ffordd y mae llwyfan cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu'n fwrddol gan ei ddatblygwyr, yn yr un modd ag y mae cynnyrch traddodiadol yn cael ei ddylunio a'i gynhyrchu. O ganlyniad i'r dewisiadau dylunio hyn, gall y llwyfan weithredu mewn ffordd sy'n gallu achosi niwed ac felly rydym yn cynnig y dylai ddenu atebolrwydd dan y CPA yn yr un ffordd ag unrhyw gynnyrch arall. Byddai hyn yn golygu y gallai datblygwyr fod yn atebol dan y CPA am y niwed a achosir gan ddyluniad eu llwyfannau a'r nodweddion unigryw y maent wedi'u cynnwys ynddynt.

Nid yw ein cynnig yn ymgysylltu â rôl llwyfan fel casgliad o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, nac yn ceisio ei rheoleiddio, ac nid yw ychwaith yn priodoli atebolrwydd i lwyfannau am sylwedd deunydd trydydd parti. Yn hytrach, mae'n ymwneud â diffygion yn nyluniad neu weithrediad y llwyfan ei hun yn unig. Felly, mae'r gwahaniaeth hollbwysig

rhwng cynnwys a phensaernïaeth y llwyfan ar gyfer trefnu, blaenoriaethu a darparu'r cynnwys hwnnw. Mae rhai nodweddion a chydrannau dylunio, gan gynnwys systemau argymell, o reidrwydd yn ystyried nodweddion y cynnwys maent yn ei brosesu, yn ogystal ag ymddygiad defnyddwyr, ymgysylltiad a ragwelir a dewisiadau tybiedig. Y cwestiwn allweddol, fodd bynnag, yw a yw'r diffyg honedig yn gorwedd yn nyluniad neu weithrediad y llwyfan, yn hytrach nag yn ystyr, cyfreithlondeb neu safbwynt unrhyw eitem benodol o gynnwys. Mewn geiriau eraill, byddai'r drefn atebolrwydd am gynnyrch yn berthnasol i sut mae'r llwyfan wedi'i ddylunio ac yn gweithredu, nid i'r cynnwys mae'n ei gario.

Mae'r gwahaniaeth hwnnw hefyd yn bwysig yng nghyd-destun yr hawl i ryddid mynegiant dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yr ydym o'r farn bod ein dull gweithredu arfaethedig yn gydnaws ag ef am y rhesymau a esbonnir yn y papur ymgynghori.

Diogelu'r diffiniad o "gynnyrch" at y dyfodol

Er mwyn sicrhau bod modd addasu'r CPA wrth i dechnoleg esblygu, rydym yn cynnig y dylai'r diffiniad o "gynnyrch" ymestyn i unrhyw beth arall (digidol neu fel arall) sy'n cael ei ddylunio neu ei ddatblygu i gyflawni swyddogaeth benodol i ddefnyddwyr, ni waeth sut mae'n cael ei gyflenwi neu ei ddarparu. Mae'r fformiwleiddiad hwn yn canolbwyntio ar nodweddion diffiniol cynnyrch, sef sut mae wedi'i ddylunio i weithredu, gan osgoi anhyblygrwydd categorïau caeedig.

Gwybodaeth bur

Nid yw gwybodaeth bur, sy'n golygu ffeithiau, data, cyfarwyddiadau, gwybodaeth neu syniadau sy'n anniriaethol a haniaethol eu natur ac nad ydynt yn cyflawni unrhyw rôl weithredol neu swyddogaethol, yn cael ei hystyried yn gynnyrch dan y CPA, y cymerir yn

gyffredinol ei bod yn eithrio eitemau anniriaethol (ac eithrio trydan) o'i chwmpas.

Rydym o'r farn y dylid cadw at yr eithriad cyffredinol o ran gwybodaeth bur. Y rheswm am hyn yw nad oes rôl swyddogaethol i wybodaeth bur; yn gyffredinol, dim ond pan fydd rhywun yn dibynnu ar yr wybodaeth, yn gweithredu arni neu'n ei hymgorffori mewn cynnyrch arall y bydd unrhyw niwed yn codi.

Fel eithriad i eithrio gwybodaeth yn gyffredinol, rydym yn cynnig y dylid trin ffeiliau gweithgynhyrchu digidol, fel y rhai a ddefnyddir mewn argraffu 3D a gweithgynhyrchu a reolir gan gyfrifiadur, fel cynhyrchion at ddibenion y CPA, ynghyd ag unrhyw wybodaeth swyddogaethol arall sy'n angenrheidiol i gynhyrchu eitem ddiriaethol drwy alluogi rheoli peiriannau neu offer yn awtomatig. Y rheswm am hyn yw bod gan yr wybodaeth hon swyddogaeth weithredol: mae wedi'i llunio i gyflawni tasg neu i arddangos nodweddion diffiniedig gyda swyddogaethau penodol.

Rydym hefyd yn gofyn i ymgylgoreion a oes categorïau eraill o wybodaeth a ddylai ddod o fewn y diffiniad o "gynnyrch" dan y CPA, yn enwedig lle mae gwybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf y bwriedir ei phrosesu gan system gyfrifiadurol neu gynnyrch cysylltiedig, gan ddylanwadu'n uniongyrchol ar weithrediad, ymddygiad neu allbynnau'r system. Gall hyn gynnwys sefyllfaoedd lle mae datblygwyr meddalwedd yn cyflenwi gwybodaeth ar ffurf cod y maent yn bwriadu i ddefnyddwyr ei lunio, ei adeiladu neu ei ddefnyddio, neu werthu data hyfforddi ar gyfer modelau iaith mawr. O ystyried pa mor hawdd, yn gymharol, y gellir defnyddio gwybodaeth o'r fath i greu neu weithredu cynhyrchion sy'n gallu achosi niwed, rydym yn gofyn am farn ymgylgoreion ynghylch a ddylai ddod o fewn cwmpas y CPA.

Eithrio gwasanaethau

Rydym yn cynnig y dylai gwasanaethau barhau i gael eu heithrio o'r CPA. Rydym hefyd

yn cynnig y dylai'r eithriad hwn ymestyn i wasanaethau sy'n gysylltiedig â chynnyrch, neu sy'n ofynnol er mwyn i gynnyrch weithredu. Felly, ni fyddai'r CPA yn mabwysiadu cysyniad sy'n cyfateb i "wasanaeth cysylltiedig" y Gyfarwydddeb Newydd. Yn ein barn ni, nid oes angen cysyniad o'r fath dan y Ddeddf. Fel arfer, bydd hawlydd yn gallu dwyn hawliad mewn perthynas â'r cynnyrch diffygiol ei hun, heb fod angen mynd ar drywydd darparwr unrhyw wasanaeth ategol sy'n cefnogi'r cynnyrch. Byddai cyflwyno darpariaeth o'r fath hefyd mewn perygl o gymylu'r ffin rhwng cynnyrch a gwasanaethau, a ddylai, yn ein barn ni, aros yn glir.

Rydym yn gofyn am farn ymgylgoreion ynghylch a ddylid hefyd eithrio meddalwedd pwrpasol sy'n cael ei ddarparu fel gwasanaeth, sy'n golygu meddalwedd sydd wedi'i haddasu'n benodol ac yn cael ei darparu'n barhaus ar gyfer cwsmer penodol (yn hytrach na chael ei rhoi ar y farchnad neu ei dosbarthu'n ehangach).

Diffiniad o "gyflenwi"

Rydym yn gwneud dau gynnig yn ymwneud ag ystyr cyflenwi, sy'n dilyn ein diwygiadau arfaethedig i'r diffiniad o "gynnyrch". Dan y cynigion hyn:

- byddai'r diffiniad o gyflenwi yn cael ei ehangu fel bod cynnyrch yn cael ei drin fel un sy'n cael ei gyflenwi ni waeth beth yw'r dull darparu, gan gynnwys lle mae'n cael ei ddarparu mewn ffordd wahanol i gyfrwng ffisegol, er enghraifft drwy lawrlwytho digidol; a
- byddai'r sefyllfaoedd sy'n gyfystyr â chyflenwi yn cael eu hehangu i gynnwys amgylchiadau pan fydd cynhyrchion ar gael heb i'r defnyddiwr roi unrhyw ystyriaeth ariannol neu ystyriaeth arall ar gyfer eu defnyddio, ar yr amod eu bod yn cael eu rhoi ar gael

wrth gynnal busnes a/neu gyda golwg ar wneud elw. Bwriad hyn yw cipio modelau busnes modern lle gellir darparu meddalwedd, systemau AI neu lwyfannau ar-lein am ddim ond cynhyrchu refeniw drwy ddulliau eraill, fel hysbysebu neu ddefnyddio data personol defnyddwyr.



Personau sy'n atebol dan y Ddeddf (Pennod 3)

Y gyfraith gyfredol

Mae'r CPA yn darparu bod yr unigolion canlynol yn atebol am ddifrod a achosir gan gynnyrch diffygiol: "cynhyrchydd" y cynnyrch; "hunan-frandiwr", sy'n golygu unigolyn sydd, drwy roi ei enw neu ei nod masnach ar y cynnyrch, yn honni mai ef yw cynhyrchydd y cynnyrch; a'r rhai sydd wedi mewnfario'r cynnyrch i'r DU. Gall cyflenwyr cynnyrch hefyd fod yn atebol dan y CPA, er y gallant osgoi atebolrwydd drwy nodi unrhyw un o'r canlynol - y cynhyrchydd, yr hunan-frandiwr, y sawl sy'n mewnfario neu ei gyflenwr ei hun ar gais.

Pan fo mwy nag un person yn atebol am yr un difrod, mae eu hatebolrwydd yn un ar y cyd ac yn unigol. Mae hyn yn golygu y gall hawlydd ddwyn hawliad yn erbyn unrhyw un neu fwy o'r personau hynny am swm llawn eu colled, gan ddewis pa ddiffynnydd posibl i fynd ar ei ôl. Gall diffynnydd sy'n talu mwy na'i gyfran wedyn ofyn am gyfraniad gan y lleill.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Mae ein cynigion yn ymateb i dechnolegau newydd, twf e-fasnach a chymhlethdod cynyddol cadwyni cyflenwi modern. Maent yn cynnwys ehangu'r diffiniad o "gynhyrchydd", egluro atebolrwydd mewn perthynas â chydrannau diffygiol a chynhyrchion sydd wedi'u haddasu'n sylweddol, a chyflwyno categorïau newydd o bersonau a allai fod yn atebol dan y CPA.

Diffiniad o gynhyrchydd

O ystyried ein cynigion i ymestyn y diffiniad o "gynnyrch" i gynnwys meddalwedd, systemau deallusrwydd artiffisial a nodweddion a chydrannau dylunio llwyfannau ar-lein, rydym

yn cynnig ehangu'r diffiniad o "gynhyrchydd" i gynnwys y sawl a'u datblygodd.

Atebolrwydd cynhyrchwyr am gydrannau diffygiol

Dan y CPA fel y mae, lle mae'r diffyg mewn cydran sydd ei hun yn gynnyrch (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "cydran"), gallai cynhyrchydd y gydran a chynhyrchydd y cynnyrch gorffenedig fod yn atebol. Fodd bynnag, gellir integreiddio cydrannau i gynhyrchion gorffenedig mewn amgylchiadau gwahanol iawn, sy'n cynnwys gwahanol raddau o gyfranogiad cynhyrchwyr. Nid yw'r CPA yn gwahaniaethu rhwng amgylchiadau o'r fath. Mae cynhyrchion modern hefyd yn aml yn gallu cael eu cydgysylltu â chydrannau allanol ac nid yw'r CPA yn darparu ar gyfer yr amgylchiad hwn. O ganlyniad, nid yw'r Ddeddf yn darparu fframwaith digon clir ar gyfer pennu pryd y dylai cynhyrchydd y cynnyrch gorffenedig fod yn atebol, neu fel arall, am ddiffygion sy'n deillio o gydrannau integredig neu gydgysylltiedig. Mae hyn yn gynyddol bwysig yng nghyd-destun technolegau sy'n dod i'r amlwg oherwydd pa mor hawdd yw hi i gynhyrchion cael eu cydgysylltu.

Pan fydd cydran ddiffygiol yn cael ei hintegreiddio neu ei chydgyssylltu â chynnyrch gorffenedig dan reolaeth cynhyrchydd y cynnyrch gorffenedig, rydym yn cynnig y dylai cynhyrchydd y cynnyrch gorffenedig a chynhyrchydd y gydran fod yn atebol o bosibl dan y CPA. Ar y llaw arall, pan fydd cydran ddiffygiol wedi'i hintegreiddio neu ei chydgyssylltu â chynnyrch gorffenedig cynhyrchydd sydd y tu hwnt i'w reolaeth, dim ond cynhyrchydd y gydran ddylai fod yn atebol o bosibl dan y CPA.

Addasiadau sylweddol i gynnyrch

Ar hyn o bryd, nid yw'r CPA yn glir ynghylch pwy sy'n atebol pan fydd cynnyrch wedi cael ei addasu'n sylweddol ar ôl ei gyflenwi, a beth yw addasiad sylweddol. Yn benodol, nid yw'n

gwahaniaethu rhwng cynnyrch sydd wedi'i atgyweirio'n unig ac un sydd wedi'i addasu i'r fath raddau fel ei fod i bob pwrpas yn dod yn gynnyrch newydd. Mae'r mater yn arbennig o arwyddocaol ar gyfer technolegau sy'n dod i'r amlwg, sy'n gallu rhyngweithio'n haws â chynhyrchion eraill neu gael eu haddasu gan unigolion ar wahân i'r datblygwr gwreiddiol, o'i gymharu â chynnyrch diriaethol.

Rydym yn cynnig meini prawf ar gyfer penderfynu beth ddylai gael ei ystyried yn "addasiad sylweddol". Yn ein barn ni, mae hyn yn digwydd pan fydd rhywun yn newid perfformiad, pwrpas neu fath gwreiddiol y cynnyrch, ac, o ganlyniad, naill ai'n newid yr hyn y mae gan bobl hawl i'w ddisgwyl gan y cynnyrch yn gyffredinol neu natur neu lefel y risg sy'n gysylltiedig ag ef. Nid ydym o'r farn y byddai hunan-ddysgu arferol system AI yn bodloni'r meini prawf hyn.

O ran dyrannu atebolrwydd, rydym yn cynnig, pan fydd cynnyrch yn cael ei addasu'n sylweddol o fewn rheolaeth y cynhyrchydd gwreiddiol, y dylai'r cynhyrchydd gwreiddiol barhau i fod yn atebol am y difrod a achosir gan y cynnyrch wedi'i addasu, yn hytrach na'r sawl a gyflawnodd yr addasiad. I'r gwrthwyneb, pan fydd cynnyrch yn cael ei addasu'n sylweddol y tu hwnt i reolaeth y cynhyrchydd gwreiddiol, dylai atebolrwydd ddibynnu ar y cwestiwn a yw'r cynnyrch wedi'i addasu yn cael ei gyflenwi'n fasnachol. Os ydyw, dylai'r person hwnnw fod yn atebol am y difrod a achosir gan y cynnyrch wedi'i addasu fel ei gynhyrchydd; os nad yw, ni ddylai fod yn atebol am ddifrod o'r fath.

Yn y naill achos neu'r llall, lle cododd y diffyg yn y cynnyrch addasedig y tu hwnt i reolaeth y cynhyrchydd gwreiddiol, byddai gan y cynhyrchydd gwreiddiol amddiffyniad ac ni fyddai'n atebol dan y CPA.

Categoriâu newydd o bersonau atebol

Rydym yn cynnig cyflwyno sawl categori newydd o bersonau a allai fod yn atebol dan y CPA: darparwyr gwasanaethau cyflawni, "cyfranogwyr craidd" a chynrychiolwyr awdurdodedig yn y DU. Bwriad hyn yw mynd i'r afael â chymhlethdod cynyddol cadwyni cyflenwi modern, byd-eang a thwf e-fasnach.



Darparwyr gwasanaethau cyflawni

Byddai'r categori newydd hwn yn cynnwys endidau sy'n darparu gwasanaethau fel warysau, pecynnu a danfon cynnyrch. Mae endidau o'r fath yn aml yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hwyluso mynediad i farchnad y DU ar gyfer cynnyrch o wledydd eraill, yn enwedig lle mae cynnyrch yn cael ei werthu ar-lein.

Rydym yn cynnig y dylai darparwr gwasanaeth cyflawni fod yn atebol dan y CPA, ond ddim ond pan na ellir canfod pwy yw'r cynhyrchydd yn y DU, yr hunan-frandiwr, y sawl sy'n mewnforio, neu gynrychiolydd awdurdodedig unrhyw un o'r unigolion hynny yn y DU. Bwriad hyn yw ceisio sicrhau bod gan hawl wyr fnyddiad at ddiffynnydd posibl yn y DU, gan gydnabod y bydd categorïau eraill o berson atebol fel arfer yn ddiffynnyddion mwy priodol lle gellir canfod pwy ydynt.

Rydym yn cynnig y dylai darparwr gwasanaeth cyflawni fod yn unrhyw un sy'n cynnig, wrth

gynnal ei fusnes, o leiaf ddau o'r gwasanaethau canlynol: wrysau, pecynnu, cyfeirio a danfon cynnyrch, ym mhob achos heb fod yn berchen ar y cynnyrch hwnnw, ac eithrio gwasanaethau post, gwasanaethau danfon parseli a gwasanaethau cludo nwyddau. Nod hyn yw cipio elfennau craidd rôl darparwr gwasanaeth cyflawni o ran hwyluso mynediad i farchnad y DU. Dylid eithrio unrhyw endidau sy'n darparu mân wasanaethau yn unig.

“Cyfranogwyr craidd”, gan gynnwys marchnadoedd ar-lein

Oherwydd twf e-fasnach, mae defnyddwyr yn prynu mwy a mwy o gynnyrch gan werthwyr a marchnadoedd ar-lein. Rydym o'r farn y dylai marchnadoedd ar-lein fod yn atebol mewn rhai amgylchiadau am y cynhyrchion sy'n cael eu gwerthu ar eu llwyfannau. Fodd bynnag, gan y gallai marchnadoedd ar-lein esblygu ac y gallai gweithredwyr newydd sy'n gweithredu mewn ffordd debyg ddod i'r amlwg, nid ydym yn cynnig diffiniad sefydlog o “farchnad ar-lein”.

Yn hytrach, rydym yn nodi eu priodoleddau craidd sydd, yn ein barn ni, yn cyfiawnhau gorfodi atebolrwydd ac yn cynnig y dylai'r CPA fod yn berthnasol i endidau sy'n arddangos y priodoleddau hynny dan gategori newydd, y cyfeiriwn ato fel “cyfranogwyr craidd”.

Rydym yn cynnig y dylai unigolyn fod yn gyfranogwr craidd pan fydd ef (neu endid rheoledig):

1. wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddod â chynnyrch i farchnad y DU;
2. wedi elwa'n ariannol o wneud hynny; ac
3. wedi bod â rheolaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol neu ddylanwad pendant dros broses weithgynhyrchu neu ddosbarthu'r cynnyrch, ond
4. nad yw yn gynhyrchwr, yn hunan-frandiwr, yn fewnforiwr, yn ddarparwr gwasanaeth

cyflawni, nac yn gynrychiolydd awdurdodedig i unrhyw berson o'r fath yn y DU.

Bwriad cynnwys endidau rheoledig yw adlewyrchu'r realiti masnachol, o fewn grŵp corfforaethol sy'n cynnwys nifer o endidau cysylltiedig ond sy'n gyfreithiol wahanol, y gellir rhannu'r cyfrifoldeb dros wahanol agweddau ar weithrediadau'r grŵp rhwng yr endidau hynny.

Rydym yn cynnig y dylai “cyfranogwr craidd” fod yn atebol dan y CPA, ond ddim ond pan na ellir canfod pwy yw'r cynhyrchydd yn y DU, yr hunan-frandiwr, y sawl sy'n mewnforio, neu gynrychiolydd awdurdodedig unrhyw un o'r unigolion hynny yn y DU. Yn yr un modd â'n cynnig ynghylch darparwyr gwasanaethau cyflawni, mae hyn yn ceisio sicrhau bod hawlwr yn gallu dwyn hawliad yn erbyn diffynnydd posibl yn y DU. Ar yr un pryd, mae'n cydnabod y dylai atebolrwydd fel arfer fod gyda chategoriâu eraill o bersonau atebol lle gellir eu canfod.



Cynrychiolwyr awdurdodedig yn y DU


Un o nodau polisi gwreiddiol y CPA oedd gosod atebolrwydd ar fewnforwyr, fel y gallai hawlwr nodi diffynnydd posibl yn y DU ac osgoi anawsterau wrth fynd ar drywydd hawliad y tu allan i'r awdurdodaeth. Mae ein cynigion i ymestyn atebolrwydd i ddarparwyr gwasanaethau cyflawni a marchnadoedd ar-lein (cyfranogwyr craidd) yn ceisio mynd â'r amcan hwn ymhellach.

Rydym yn cynnig bod y CPA yn mynd ymhellach drwy osod atebolrwydd hefyd ar

gynrychiolydd awdurdodedig cynhyrchydd, hunan-frandiwr, mewnofiwr, darparwr gwasanaeth cyflawni, neu gyfranogwr craidd yn y DU lle mae unigolion o'r fath wedi'u sefydlu y tu allan i'r DU. Byddai "cynrychiolydd awdurdodedig yn y DU" at y dibenion hyn yn golygu unrhyw berson sydd wedi'i sefydlu yn y DU ac sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran person o'r fath mewn perthynas â'r cynnyrch, gan gynnwys ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio, cydymffurfio, gorfodi, materion cysylltiedig â chynnyrch, a mynediad i'r farchnad.

Cyflenwyr

Rydym o'r farn y dylid cadw dull presennol y CPA o ran atebolrwydd cyflenwyr, fel mai dim ond pan nad yw'n nodi person arall y gellid dwyn achos yn ei erbyn y mae cyflenwr yn atebol. Yng ngoleuni ein cynnig i ehangu'r categorïau o bersonau a allai fod yn atebol dan y CPA, rydym yn cynnig diwygiadau cyfatebol i'r darpariaethau atebolrwydd cyflenwyr. Byddai cyflenwr yn osgoi atebolrwydd drwy nodi person ar y rhestr estynedig, ar yr amod, lle nad y person hwnnw yw cyflenwr y cyflenwr ei hun, ei fod wedi sefydlu yn y DU a'i fod yn cael ei nodi yn unol â threfn flaenoriaeth ragnodedig.



Diffyg ac achosiaeth dan y CPA (Pennod 4)

Diffiniad o ddiffyg

Y gyfraith gyfredol

Dan y CPA, mae cynhyrchydd neu barti arall a allai o bosibl fod yn atebol, yn gaeth-atebol am unrhyw ddifrod a achosir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan ddiffyg mewn cynnyrch. Mae cynnyrch yn ddiffygiol "os nad yw diogelwch y cynnyrch mor ddiogel ag y mae gan bobl yr hawl i'w ddisgwyl yn gyffredinol". Mae'r CPA yn darparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o amgylchiadau y mae'n rhaid i'r llysoedd eu hystyried wrth bennu lefel y diogelwch y mae gan bobl yr hawl i'w disgwyl, gan gynnwys y ffordd y cafodd y cynnyrch ei farchnata, ymddangosiad y cynnyrch, cyfarwyddiadau neu rybuddion, defnydd rhesymol, ac amser cyflenwi.

Mae'r diffiniad o ddiffyg yn eang ac yn gyffredinol, gan ganiatáu i'r drefn weithredu ar draws ystod eang o gynnyrch sy'n esblygu. Fodd bynnag, gall ehangder y diffiniad hefyd greu dryswch, anghysondeb wrth ei gymhwyso, ac ansicrwydd, yn enwedig mewn achosion technegol gymhleth. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol i bartïon a'r llysoedd dreulio amser ac adnoddau sylweddol yn penderfynu sut y dylid asesu'r lefel briodol o ddiogelwch, sy'n cynyddu cost a natur anrhagweladwy hawliadau o'r fath.

Mae'r anawsterau hyn yn debygol o ddod yn fwy amlwg yng nghyd-destun cynnyrch sydd ag elfennau digidol. Mae llawer o gynhyrchion o'r fath yn gweithredu mewn ffyrdd anhryloyw, technegol gymhleth nad yw'r cyhoedd yn eu deall yn hawdd. Mae eu cymhlethdod yn cael ei waethygu gan y ffaith bod modd eu haddasu o bell, er enghraifft drwy ddiweddariadau meddalwedd, gan wneud eu perfformiad yn rhaglenadwy ac yn gallu newid dros amser.

Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach nodi a gwerthuso'r lefel briodol o ddiogelwch.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Mae ein cynigion yn ceisio cadw hyblygrwydd y diffiniad o ddiffyg, gan ganiatáu iddo addasu i ystod eang o gynhyrchion sy'n esblygu, ar yr un pryd â darparu canllawiau cliriach a mwy strwythuredig ar ei ddefnyddio. Rydym yn cynnig bod hyn yn cael ei gyflawni mewn tair ffordd.

1. Drwy ddarparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o egwyddorion ar gyfer asesu a yw diogelwch cynnyrch yr hyn y mae gan bobl hawl i'w ddisgwyl yn gyffredinol ai peidio, ac felly a yw'r cynnyrch yn ddiffygiol.
2. Drwy ategu a diweddaru'r rhestr o amgylchiadau y bydd y llysoedd yn eu hystyried wrth benderfynu a yw diogelwch cynnyrch yr hyn y mae gan bobl hawl i'w ddisgwyl yn gyffredinol ai peidio.
3. Drwy egluro ac ymhelaethu ar bwrpas datganedig y CPA.

Rhestr nad yw'n gynhwysfawr o egwyddorion ar gyfer asesu'r lefel briodol o ddiogelwch

Rydym yn cynnig y dylai'r CPA gynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o egwyddorion ar gyfer asesu a yw cynnyrch wedi cyrraedd y lefel briodol o ddiogelwch. Byddai cynnyrch yn ddiffygiol at ddibenion y CPA os bodlonir unrhyw un o'r egwyddorion. Daw'r egwyddorion arfaethedig o gyfraith achosion ddomestig a chyfraith achosion awdurdodaethau eraill lle defnyddiwyd profion tebyg ar gyfer sefydlu diffyg. Dan yr egwyddorion hyn, ni fyddai diogelwch cynnyrch yr hyn y byddai gan bobl hawl i'w ddisgwyl yn yr amgylchiadau canlynol:

- **Defnydd arferol ac y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol:** roedd y cynnyrch, o'i ddefnyddio mewn modd y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol, wedi achosi difrod y tu hwnt i'r hyn a oedd fel arfer ac yn gynhenid gysylltiedig â defnydd o'r fath.
- **Darparu gwybodaeth:** roedd risg o ddifrod yn gysylltiedig â'r cynnyrch, ac ni ddarparwyd digon o wybodaeth i alluogi personau i wneud penderfyniad ynghylch derbyn y risg honno ai peidio.
- **Cyfarwyddiadau a rhybuddion i osgoi niwed:** roedd risg o ddifrod yn gysylltiedig â'r cynnyrch y gellid ei osgoi, ac ni ddarparwyd cyfarwyddiadau na rhybuddion digonol ynghylch sut y gellid osgoi'r risg honno.
- **Cyflwyno risg:** nid oedd unrhyw rybudd na gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â risg o ddifrod gan y cynnyrch yn cyfleu natur a difrifoldeb y risg honno'n gywir ac yn glir, a/neu'n ei bychanu neu'n ei chuddio.
- **Amod osgoi risg adeg cyflenwi:** gellid yn rhesymol fod wedi dileu'r risg o ddifrod cysylltiedig â'r cynnyrch adeg ei gyflenwi, neu ei lleihau'n sylweddol (gan ystyried cost a dichonoldeb gwneud hynny), heb beryglu manteision y cynnyrch, ac ni wnaed hynny.
- **Y berthynas rhwng risgiau a manteision:** nid yw'r risg o ddifrod a achosir gan y cynnyrch yn gymesur â'r manteision y mae'r cynnyrch yn eu darparu, ac nid yw'r manteision yn cyfiawnhau hynny, oni bai fod y risg honno o ddifrod mor hysbys i'r cyhoedd yn gyffredinol fel ei bod yn cael ei hystyried yn dderbyniol yn gymdeithasol.
- **Cymhariaeth â dewisiadau eraill sydd ar gael:** roedd y cynnyrch, adeg ei gyflenwi, yn peri risg sylweddol uwch o ddifrod na chynhyrchion eraill a oedd ar gael bryd hynny a fyddai wedi darparu manteision tebyg neu fwy.

Ni fyddai'r egwyddorion hyn yn disodli'r cwestiwn cyffredinol a ofynnir gan y prawf statudol, sef a yw diogelwch cynnyrch yr hyn y mae gan bobl hawl i'w ddisgwyl yn gyffredinol ai peidio. Yn hytrach, byddent yn mynegi ac yn rhoi mynegiant mwy pendant i'r prawf, gan arwain ei ddefnydd a rhoi llwybr cliriach i hawl wyr i sefydlu nad oedd diogelwch cynnyrch yr hyn y mae gan bobl yr hawl i'w ddisgwyl yn gyffredinol. Byddai hawlydd yn gallu dibynnu ar un neu fwy o'r egwyddorion i gefnogi'r haerriad hwnnw.

Rydym yn gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylai diffynnydd, er mwyn cynnal cydbwysedd cyffredinol y buddiannau y mae'r drefn yn ceisio eu cyflawni, byth allu osgoi atebolrwydd dan ein hegwyddorion newydd (y tu hwnt i'r dulliau o wneud hynny sydd eisoes yn bodoli dan y drefn) ac, os felly, pa ofynion, os o gwbl, y dylai fod yn ofynnol iddo eu bodloni i wneud hynny.

“Amgylchiadau perthnasol” ychwanegol

Er mwyn cynnal hyblygrwydd y diffiniad o ddiffyg, rydym yn cynnig cadw gallu'r llysoedd i asesu diffyg drwy gyfeirio at yr holl amgylchiadau perthnasol. Yn ein barn ni, mae hyn yn parhau'n hanfodol i sicrhau bod y drefn yn gallu addasu i dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a risgiau newydd. Fodd bynnag, rydym yn cynnig ychwanegu at y fframwaith drwy ddiweddarau'r amgylchiadau presennol a nodi rhai ychwanegol i'w hystyried wrth benderfynu a yw cynnyrch yn ddiffygiol.

Mae'r amgylchiadau wedi'u diweddarau a'r rhai ychwanegol rydym yn eu cynnig yn cynnwys:

- ymddangosiad a nodweddion y cynnyrch, gan gynnwys marchnata, pecynnu, labelu, dyluniad, cyfarwyddiadau a rhybuddion;
- anghenion defnyddwyr arfaethedig y cynnyrch;

- a yw cynnyrch y bwriedir iddo atal difrod yn cyflawni'r diben hwnnw;
- gallu'r cynnyrch i ddysgu neu gaffael nodweddion newydd ar ôl ei gyflenwi;
- effeithiau rhagweladwy rhesymol rhyngweithio â chynhyrchion eraill, gan gynnwys drwy gydgyssylltiad;
- canllawiau, safonau a gofynion cyfreithiol perthnasol o ran seiberddiogelwch;
- amseriad y cyflenwi neu, pan gadwyd rheolaeth, y pwynt pan adawodd y cynnyrch reolaeth y cynhyrchydd; a
- maint rheolaeth y cynhyrchydd ar ôl cyflenwi, gan gynnwys ei allu i addasu'r cynnyrch drwy ddiweddarau neu uwchraddio'r feddalwedd, neu fel arall, i fynd i'r afael â risgiau o niwed. Mae hyn yn golygu y gallai'r cwestiwn a yw diweddariadau neu uwchraddio wedi cael eu darparu neu a allent fod wedi cael eu darparu fod yn berthnasol i'r asesiad ynghylch a yw'r cynnyrch yn ddiffygiol.

Ar hyn o bryd, mae'r CPA yn darparu nad oes gofyniad i dybio bod cynnyrch yn ddiffygiol ddim ond oherwydd bod cynnyrch sy'n cael ei gyflenwi'n ddiweddarach yn fwy diogel. Er mwyn diogelu gweithrediad y ddarpariaeth hon mewn perthynas â chynhyrchion digidol y gellir eu haddasu ar ôl iddynt gael eu cyflenwi, rydym yn cynnig na ddylid ystyried bod cynnyrch yn ddiffygiol ddim ond oherwydd bod cynnyrch arall a gafodd ei gyflenwi neu ei addasu'n ddiweddarach yn fwy diogel.

Diben y CPA

Y gyfraith gyfredol

Nid yw'r CPA yn cynnwys datganiad penodol o ddiben. Yn hytrach, mae adran 1 y CPA yn datgan bod y Ddeddf yn gweithredu Cyfarwydddeb 1985 a rhaid ei dehongli yn unol â hynny. Byddai egluro diben y drefn yn helpu'r llysoedd a'r partïon i gymhwyso a dehongli ei ddarpariaethau'n fwy cyson.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Rydym yn cynnig y dylid diweddarau diben trefn atebolrwydd am gynnyrch y CPA drwy dri chynneg craidd:

1. bod y CPA yn sefydlu trefn atebolrwydd ar gyfer cynhyrchion diffygiol sydd wedi'i llunio i sicrhau dosraniad teg o'r risgiau sy'n gynhenid mewn cynhyrchion drwy gyfuno atebolrwydd llym â mesurau diogelu ar gyfer busnesau, gan gynnwys amddiffyniadau penodol sydd wedi'u dylunio i osgoi llesteirio arloesedd a chynhyrchiant yn ormodol;
2. bod y drefn yn cyflawni hyn drwy ddyrannu'r risgiau hynny, i'r graddau y bo hynny'n briodol, i'r rhai sy'n eu creu, eu rheoli neu'n elwa ohonynt, a thrwy sicrhau bod pobl sy'n dioddef difrod yn gallu cael iawndal effeithiol heb orfod profi bai; a
3. bod y drefn yn ceisio, lle bo hynny'n gyson â'r broses deg honno o ddyrannu risg, lliniaru anawsterau o ran tystiolaeth a allai fel arall danseilio ei gweithrediad.

Profi diffyg ac achosiaeth

Y gyfraith gyfredol

Yn ogystal â sefydlu bod cynnyrch yn ddiffygiol, rhaid i'r hawlydd brofi, ar sail tebygolrwydd, fod y diffyg wedi achosi, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, y difrod y cwynir amdano ("achosiaeth").

Nid yw'r CPA yn nodi sut mae hawlydd i ysgwyddo'r baich o brofi diffyg ac achosiaeth, gan adael y mater i'r llysoedd. Mae cyfraith achosion yn dangos nad yw'n ofynnol i hawlwr sefydlu pam y methodd y cynnyrch nac achos y diffyg diogelwch sy'n ffurfio'r diffyg.

Yn ymarferol, fodd bynnag, gall profi diffyg ac achosiaeth fod yn heriol mewn hawliadau technegol gymhleth. Ar adegau, mae hawlwyf wedi dibynnu ar ddadleuon sy'n debyg i'r rhai a gyflwynwyd mewn achosion esgeuluster, a all olygu ymchwiliad technegol helaeth a thystiolaeth arbenigol sy'n cystadlu â'i gilydd, gan gynyddu cost achosion a'u natur anrhagweladwy.

Mae cyfraith achosion yn dangos bod yr anawsterau hyn yn parhau dan y CPA. Mae rhanddeiliaid wedi nodi heriau sy'n deillio o gost ac argaeledd cyfyngedig arbenigwyr, anawsterau wrth ddadansoddi datgeliadau technegol, a'r anghydbwysedd o ran gwybodaeth ac adnoddau technegol rhwng hawlwyf a chynhyrchwyr. Mae'r pryderon hyn yn debygol o fynd yn fwy difrifol wrth i gynhyrchion fwyfwy ymgorffori technolegau digidol a thechnolegau sy'n cael eu gyrru gan ddeallusrwydd artiffisial.



Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Yn ein barn ni, mae'r materion hyn yn cefnogi'r achos dros ddiwygio, ar yr amod nad yw unrhyw ddiwygiad yn gosod beichiau anghymesur ar ddiffynnyddion nac yn tarfu ar gydbwysedd y buddiannau sy'n sail i'r drefn.

Rhagdybiaethau amodol o ffeithiau

Rydym yn ystyried cyflwyno rhagdybiaethau amodol mewn rhai amgylchiadau mewn

perthynas â materion ffeithiol sy'n berthnasol i brofi diffyg a/neu achosiaeth. Byddai rhagdybiaethau o'r fath yn codi lle gall yr hawlwydd ddangos bod anghymesureded gwybodaeth yn bodoli o blaid y diffynnydd ac y byddai'n deg i'r diffynnydd ysgwyddo'r baich o wrthbrofi'r rhagdybiaeth.

Byddai'r rhagdybiaethau wedi'u cyfyngu i'r materion ffeithiol dan sylw yn hytrach na phenderfynu ar ddiffyg neu achosiaeth yn ei gyfanrwydd. Drwy wneud cais dim ond pan fydd yn deg i'r diffynnydd ysgwyddo'r baich o brofi'r mater ffeithiol, eu bwriad yw mynd i'r afael ag anawsterau o ran tystiolaeth heb ffafrio hawlwyf yn ormodol na tharfu ar gydbwysedd cyffredinol y drefn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai defnyddio rhagdybiaethau, yn ymarferol, gyflwyno cymhlethdod ychwanegol i achosion. Rydym yn gofyn i ymgynghoreion am eu barn ynghylch a fyddai'r dull hwn mewn gwirionedd yn helpu hawlwyf i sefydlu diffyg ac achosiaeth, ac a fyddai'n gwneud hynny heb droi'r fantol yn ormodol o blaid hawlwyf.

Rhagdybiaeth amodol o ddiffyg a rhannu baich risg

Mae achosion lle nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigonol i benderfynu a yw cynnyrch yn ddiffygiol, nid dim ond oherwydd bod yr hawlwydd wedi methu â chyflawni'r baich profi, ond oherwydd nad yw'r dystiolaeth berthnasol yn bodoli neu nad oes modd ei chael. Mewn achosion o'r fath, bydd yr hawliad yn methu a'r hawlwydd fydd yn llwyr gyfrifol am y golled.

Nid ydym yn credu bod y canlyniad hwn yn deg pan fydd y diffynnydd wedi creu ac elwa o'r risg, yn enwedig pan fydd modd priodoli absenoldeb tystiolaeth, yn rhannol o leiaf, i ymddygiad y diffynnydd, er enghraifft pan fydd cynnyrch yn cael ei dynnu'n ôl cyn i ddigon o ddata ddod i'r amlwg.

Mae achosion o'r fath yn debygol o ddod yn fwy cyffredin wrth i dechnolegau cynyddol gymhleth ac aneglur, gan gynnwys systemau deallusrwydd artiffisial, ddod yn fwy cyffredin ac wrth i'w gweithrediad fod yn fwy anodd ei ddeall a'i egluro.

Er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau eithriadol o ran tystiolaeth y mae hawlydd yn eu hwynebu mewn achosion o'r fath, rydym yn cynnig cyflwyno rhagdybiaeth amodol o ddiffyg. Byddai'r rhagdybiaeth yn codi yn amodol ar drothwyon llym, gan fod yn berthnasol ddim ond pan fydd yr hawlydd yn gallu bodloni'r llys bod modd dadlau bod y cynnyrch yn ddiffygiol; nad yw'r ffeithiau y dibynnir arnynt yn ffansiol; bod yr hawlydd yn wynebu anawsterau tystiolaeth eithriadol oherwydd prinder tystiolaeth; ac nad yw'r risg o niwed mor hysbys fel ei bod yn cael ei derbyn yn gymdeithasol.

Os bodlonir y meini prawf hyn, byddai'r diffynnydd wedyn yn dewis naill ai ysgwyddo'r baich o wrthbrofi'r rhagdybiaeth o ddiffyg neu dderbyn y diffyg honedig.

Os bydd y diffynnydd yn dewis derbyn y diffyg honedig, byddai'r llys yn dyrannu'r risg rhyngddynt, ar yr amod bod yr hawlydd yn sefydlu difrod ac achosiaeth ac nad oes amddiffyniad yn berthnasol. Y man cychwyn fyddai dyfarnu 50% o'r iawndal y byddai modd ei adennill pe bai diffyg wedi cael ei sefydlu. Gallai'r llys addasu'r dyfarniad hwnnw i adlewyrchu i ba raddau y gallai defnyddiwr cyffredin yn sefyllfa'r hawlydd fod wedi deall a derbyn y risg yn rhesymol, ac i ba raddau y cyfrannodd ymddygiad yr hawlydd ei hun at y niwed.

Os bydd y diffynnydd yn dewis gwrthbrofi'r rhagdybiaeth ac yn methu â gwneud hynny, rydym yn cynnig y dylid asesu iawndal fel pe bai diffyg wedi'i brofi, ar yr amod bod yr hawlydd yn sefydlu difrod ac achosiaeth ac nad oes amddiffyniad yn berthnasol. Ni fyddai mecanwaith rhannu'n berthnasol.



Difrod sy'n arwain at atebolrwydd (Pennod 5)

Y gyfraith gyfredol

Dan y CPA, mae cynhyrchydd neu barti atebol arall, yn gaeth-atebol am unrhyw ddifrod a achosir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan ddiffyg mewn cynnyrch. At y dibenion hyn, mae "difrod" yn golygu marwolaeth, anaf personol, a cholli neu ddifrodi eiddo (gan gynnwys tir), er nad yw'n cynnwys difrod i'r cynnyrch diffygiol ei hun.

Mae'r CPA yn diffinio anaf personol yn fras i gynnwys unrhyw glefyd ac unrhyw amhariad ar gyflwr corfforol neu feddyliol unigolyn. I'r gwrthwyneb, dim ond pan fydd yr eiddo o fath sydd wedi'i fwriadu fel arfer ar gyfer defnydd preifat ac yn cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion preifat o'r fath adeg y golled y bydd atebolrwydd am ddifrod i eiddo yn codi. Ni ddyfernir lle nad yw gwerth y difrod i eiddo yn fwy na £275.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Mae ein cynigion yn mynd i'r afael â nifer o fylchau pwysig a meysydd o ansicrwydd ynghylch beth yw difrod o dan y CPA, sydd wedi codi o ddatblygiadau mewn cyfraith achosion ac mewn technoleg.

Anaf personol

Trothwy isaf niwed

O ystyried ehangder diffiniad y CPA o "anaf personol" ac absenoldeb ystyriaeth farnwrol ohono, nid yw'n glir a yw atebolrwydd yn codi am unrhyw nam ar gyflwr corfforol neu feddyliol unigolyn, neu a oes rhaid bodloni trothwy sylfaenol o niwed sylweddol. Rydym yn cynnig y dylai'r CPA fabwysiadu'r un safbwynt â'r un a ddatblygwyd yng nghyd-destun

hawliadau esgeuluster, fel bod yn rhaid cyrraedd trothwy isaf o niwed sylweddol cyn y gellir dwyn hawliad am anaf personol.

Camau a gymerir i osgoi risg o anaf personol yn y dyfodol

Rydym hefyd yn cynnig y dylai colledion ariannol ac anariannol a wynebwr wrth gymryd camau angenrheidiol i osgoi risg o anaf personol a achosir gan gynnyrch diffygiol fod yn ddifrod y gellir ei ddigolledu dan y CPA. Yn ein barn ni, ni ddylid disgwyl i'r cyhoedd fod mewn perygl o niwed personol lle mae mesurau angenrheidiol ar gael i osgoi'r risg honno, ac ni ddylid chwaith wrthod digolledu am y colledion a wynebwr wrth gymryd mesurau o'r fath. I'r gwrthwyneb, dylai'r gyfraith gymell ymddygiad rhagweithiol sy'n atal niwed rhag digwydd.

Niwed seiciatrig

Rydym yn disgwyl i gwestiynau sy'n ymwneud ag adferadwyedd iawndal am niwed seiciatrig ddod yn fwyfwy sylweddol yng ngoleuni niwed a allai godi o dechnolegau modern a rhai sy'n datblygu, fel llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r diffiniad o anaf personol dan y CPA yn cwmparu niwed seiciatrig, ond mae'r amgylchiadau lle gellir ei ddigolledu yn parhau i fod yn ansicr.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ansicrwydd hwn, rydym yn cynnig fframwaith ar gyfer iawndal am niwed seiciatrig dan y CPA sy'n ymgorffori rhai mecanweithiau rheoli yn tarddu o gyfraith esgeuluster. Rydym yn ystyried sefyllfa "dioddefwyr uniongyrchol", y mae eu niwed corfforol a/neu seiciatrig yn cael ei achosi'n uniongyrchol gan gynnyrch diffygiol, a "dioddefwyr anuniongyrchol", y mae eu niwed seiciatrig yn deillio o'r niwed corfforol a/neu seiciatrig a ddioddefwyd gan y dioddefwr uniongyrchol, neu ei beryglu'n gorfforol, neu ei farwolaeth o ganlyniad i gynnyrch diffygiol.

Dioddefwyr uniongyrchol

Rydym yn cynnig meini prawf gwahanol ar gyfer iawndal am niwed seiciatrig yn dibynnu a yw'r niwed yn deillio o anaf corfforol neu berygl corfforol, neu'n digwydd yn absenoldeb y naill na'r llall.

Pan fydd niwed seiciatrig yn deillio o anaf corfforol neu berygl corfforol a achosir gan y cynnyrch diffygiol, rydym yn cynnig y dylai fod modd digolledu am niwed seiciatrig dan y CPA pan fydd yn achosi salwch seiciatrig sy'n cael ei "gydnabod" neu sy'n "adnabyddadwy" yn feddygol.

Os mai niwed seiciatrig yw'r unig anaf, a ddioddefir yn absenoldeb unrhyw anaf corfforol neu berygl corfforol, rydym yn cynnig maen prawf ychwanegol ar gyfer adferadwyedd. Fel mewn achosion eraill, rhaid iddo fod yn salwch seiciatrig sy'n cael ei "gydnabod" neu sy'n "adnabyddadwy" yn feddygol. Yn ogystal, o ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, rhaid i'r niwed ddod o fewn ystod naturiol adweithiau unigolyn o gryfder cyffredin. Mae'r gofyniad hwn yn eithrio hawliadau sydd y tu allan i'r sbectrwm cyffredin o ymatebion dynol a thrwy hynny mae'n gweithredu i atal atebolrwydd gormodol.

Dioddefwyr anuniongyrchol

Mae niwed seiciatrig a ddioddefir gan ddioddefwyr anuniongyrchol yn codi o ganlyniad i'r anaf corfforol a/neu seiciatrig, y perygl corfforol, neu farwolaeth dioddefwr uniongyrchol a achosir gan gynnyrch diffygiol. Er enghraifft, gallai rhiant ddioddef niwed seiciatrig os bydd tegan diffygiol yn anafu ei blentyn yn gorfforol, neu os bydd cynnyrch digidol diffygiol, fel sgwrsfot neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol, yn achosi i'r plentyn ddatblygu cyflwr seiciatrig. Nid yw'r CPA yn dweud a oes modd digolledu dioddefwyr anuniongyrchol, ac os felly, dan ba amgylchiadau, ac nid oes cyfraith achosion ddomestig ar y pwynt.

Rydym o'r farn y dylid caniatáu i ddioddefwyr anuniongyrchol, mewn egwyddor, hawlio am niwed seiciatrig, yn amodol ar gyfyngiadau priodol. Rydym yn cynnig tri maen prawf ar gyfer adferadwyedd dan y CPA.

1. Rhaid i'r dioddefwr anuniongyrchol ddioddef salwch seiciatrig sy'n cael ei "gydnabod" neu sy'n "adnabyddadwy" yn feddygol o ganlyniad i'r anaf, y perygl corfforol, neu farwolaeth y dioddefwr uniongyrchol a achoswyd gan gynnyrch diffygiol.
2. Rhaid i'r niwed a ddioddefir gan y dioddefwr anuniongyrchol ddod o fewn ystod naturiol adweithiau unigolyn o gryfder cyffredin, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.
3. Rhaid i'r dioddefwr anuniongyrchol fod â "chysylltiad agos o gariad ac anwyldeb" â'r dioddefwr uniongyrchol. Mae'r gofyniad hwn yn cadw atebolrwydd diffynyddion o fewn terfynau cymesur y gellir ymdopi â hwy, drwy gyfyngu ar y dosbarth o unigolion a gaiff hawlio mewn perthynas â chynnyrch diffygiol.

Niwed seiciatrig, cynnyrch digidol a ryddid mynegiant

Rydym yn cydnabod bod angen gofal penodol lle'r honnir bod niwed seiciatrig wedi deillio o weithredu cynnyrch digidol mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â derbyn gwybodaeth neu syniadau. Rydym yn rhoi sylw i'r mater hwn yn ein papur ymgynghori, gan gynnwys ystyriaethau perthnasol o ran yr hawl i ryddid mynegiant dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.



Difrod i eiddo

Eiddo defnydd cymysg

Ar hyn o bryd, mae'r CPA yn caniatáu adennill am golled neu ddifrod i eiddo ddim ond pan ddefnyddir yr eiddo'n bennaf at ddibenion preifat. Rydym o'r farn bod angen ailasesu'r dull hwn yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer yr eiddo a ddefnyddir at ddibenion preifat a phroffesiynol, gan gynnwys yng nghyd-destun trefniadau gweithio hyblyg a gweithio gartref.

Rydym yn cynnig y dylai'r CPA gydnabod unrhyw golled neu ddifrod i eiddo fel difrod y gellir cael iawndal amdano, yn amodol ar eithriad ar gyfer eiddo a ddefnyddiwyd at ddibenion proffesiynol yn unig ar yr adeg y cafodd ei golli neu ei ddifrodi. Fodd bynnag, os oedd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio at ddibenion preifat a phroffesiynol cymysg pan gafodd ei golli neu ei ddifrodi, dylid lleihau'r iawndal a ddyfernir i adlewyrchu maint defnydd proffesiynol yr eiddo.



Dinistrio a llygru data

Nid yw'r CPA yn mynd i'r afael yn benodol ag iawndal am ddinistrio neu lygru data. Yn y bron i bedwar degawd ers ei deddfu, fodd bynnag, mae data wedi gweld cynnydd arwyddocaol yn economaidd ac ymarferol. O safbwynt hawlwr, gall difrod i ddata arwain at ganlyniadau sy'n cyfateb i, neu hyd yn oed yn fwy difrifol na'r rhai sy'n gysylltiedig â difrod i eiddo diriaethol.

Rydym yn cynnig y dylai'r CPA gydnabod bod dinistrio a llygru data (yn wahanol i ddatgelu data neu dorri rheolau diogelu data) yn ddifrod y gellir ei ddigolledu, oni bai fod y data'n cael ei ddefnyddio at ddibenion proffesiynol yn unig. Os oedd y data'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cymysg pan gafodd ei ddinistrio neu ei lygru, dylid lleihau'r iawndal a ddyfernir i adlewyrchu maint defnydd proffesiynol y data.

Rydym hefyd yn gofyn cwestiwn archwiliadol sy'n gofyn am farn ymgylgoreion ynghylch a ddylai colli mynediad at ddata a gedwir ar gynnyrch neu y ceir mynediad ato drwy gynnyrch gael ei gydnabod fel yn ddifrod y gellir ei ddigolledu dan y CPA lle nad yw'r data hwnnw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion proffesiynol yn unig, o ystyried y gallai arwain at ganlyniadau ymarferol tebyg i ddinistrio neu lygru data.

Cynigion eraill

Rydym yn cynnig y dylai'r eithriad presennol o atebolrwydd am ddifrod i'r cynnyrch diffygiol ei hun hefyd gynnwys sefyllfaoedd lle mae'r difrod yn cael ei achosi gan gydran ddifffygol sydd wedi cael ei hintegreiddio neu ei chydgysylltu â'r cynnyrch hwnnw gan gynhyrchydd y cynnyrch hwnnw (neu o fewn ei reolaeth). Byddai hyn yn sicrhau bod yr eithriad yn parhau i weithredu'n gyson mewn perthynas â chynhyrchion digidol modern y gellir eu diweddarau ar ôl eu cyflenwi.

Rydym hefyd yn cynnig y dylid diwygio'r CPA i ddileu'r trothwy is o £275 ar gyfer difrod i eiddo. Er bod y trothwy'n amddiffyn partïon atebol rhag hawliadau y gellir eu hystyried yn ddibwys, mae'n eithrio adennill hawliadau sydd fel arall yn ddilys a gallai gymhlethu achosion drwy ei gwneud yn ofynnol i hawlwr fynd ar drywydd camau gweithredu eraill. Felly, mae'n dyrannu risgiau i bartïon sydd wedi'u niweidio a ddylai mewn gwirionedd fod yn gorwedd gyda diffynnyddion, sydd fel arfer mewn sefyllfa well i'w hamsugno a'u dosbarthu.

Amddiffyniadau a stop pell (Pennod 6)

Amddiffyniadau

Y gyfraith gyfredol

Mae'r CPA yn darparu amddiffyniadau amrywiol i ddiffynyddion sy'n wynebu hawliadau a ddygwyd dan y Ddeddf, gan gynnwys lle: (i) nad oedd y diffynnydd wedi cyflenwi'r cynnyrch i rywun arall; (ii) nad oedd y diffyg yn bodoli ar yr amser "perthnasol" (yn gyffredinol, pan gyflenwyd y cynnyrch); a (iii) roedd sefyllfa'r wybodaeth wyddonol a thechnegol adeg cyflenwi'r cynnyrch yn golygu nad oedd modd canfod y diffyg (cyfeirir at hyn gyffredin fel yr "amddiffyniad risgiau datblygu").

Bwriad yr amddiffyniadau, ynghyd â'r cyfyngiadau a'r cyfnodau stop pell a drafodir isod, yw cefnogi amcan canolog y CPA o gydbwyso buddiannau er mwyn gallu dosrannu risg yn deg: rhoi amddiffyniad effeithiol i ddefnyddwyr pan fydd cynnyrch diffygiol yn achosi niwed, gan sicrhau nad yw cynhyrchwyr a diffynyddion eraill yn cael eu llethu gan ormod o atebolrwydd, a allai lesteirio arloesedd a chynhyrchiant.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Mae ein cynigion yn mynd i'r afael ag a yw'r amddiffyniadau presennol yn parhau i weithredu'n deg, gan roi sylw penodol i'r heriau a achosir gan gynnyrch digidol a chysylltiedig, yn enwedig lle mae modd eu diweddarau dro ar ôl tro.

Dim cyflenwi i rywun arall

Mae'r CPA yn darparu amddiffyniad lle na wnaeth y diffynnydd gyflenwi'r cynnyrch i rywun arall ar unrhyw adeg. Bwriad yr amddiffyniad hwn yw atal atebolrwydd rhag

codi cyn i'r diffynnydd ddewis darparu'r cynnyrch i eraill. Fodd bynnag, gall ansicrwydd godi pan nad yw cynnyrch yn cael ei gyflenwi'n uniongyrchol i unigolyn arall ond ei fod yn hytrach yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwr gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaeth. Er enghraifft, gall darparwr gwasanaeth meddygol ddefnyddio cynnyrch y mae wedi'i gynhyrchu at ei ddibenion ei hun wrth ddarparu triniaeth i glaf. Os yw'r cynnyrch hwnnw'n ddiffygiol ac yn achosi niwed, nid yw'n glir a all y darparwr ddibynnu ar yr amddiffyniad nad oedd wedi cyflenwi'r cynnyrch i unigolyn arall.

Rydym yn cynnig na ddylai'r amddiffyniad hwn fod ar gael pan fydd cynnyrch diffygiol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau masnachol neu wasanaethau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ac yn achosi niwed yn y cyd-destun hwnnw. Byddai hyn yn sicrhau na ellir osgoi atebolrwydd ddim ond am fod y cynnyrch yn cael ei ddefnyddio'n fewnol gan y darparwr gwasanaeth yn hytrach na'i gyflenwi i unigolyn arall.

Byddai'r dull hwn yn sicrhau diogelwch cyson i'r rhai sy'n cael eu niweidio gan gynnyrch diffygiol. Byddai hefyd yn golygu y byddai unigolion sy'n derbyn gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys triniaeth y GIG, yn cael mynediad at yr un amddiffyniad dan y CPA â'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau cyfatebol yn y sector preifat.

Diffygion yn codi ar ôl cyflenwi

Mae'r CPA hefyd yn darparu amddiffyniad lle nad oedd y diffyg yn bodoli yn y cynnyrch ar yr "adeg berthnasol", sef yr amser cyflenwi fel arfer.

Mae'r amddiffyniad hwn yn briodol ar gyfer cynhyrchion diriaethol traddodiadol, lle bydd cynhyrchydd fel arfer yn colli rheolaeth adeg cyflenwi. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi digon o sylw i gynnyrch y gellir eu haddasu ar ôl eu cyflenwi, gan gynnwys cynnyrch modern fel ffônau clyfar sy'n cael diweddariadau

meddalwedd rheolaidd i gynnal a gwella eu perfformiad.

Mewn achosion o'r fath, gall cynhyrchydd achosi i gynnyrch fynd yn ddiffygiol ar ôl iddo gael ei gyflenwi, er enghraifft drwy gyflwyno diweddariad meddalwedd diffygiol neu drwy fethu â darparu diweddariad sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â risg diogelwch. Gan fod y diffyg wedi codi ar ôl i'r cynnyrch gael ei gyflenwi, gallai diffynnydd ddibynnu ar yr amddiffyniad ar ei ffurf bresennol. Yn ein barn ni, mae'r canlyniad hwnnw'n anfodddhaol.

Felly, rydym yn cynnig na ddylai diffynnydd allu dibynnu ar yr amddiffyniad nad oedd y diffyg yn bodoli yn y cynnyrch ar yr adeg berthnasol pe bai'n achosi i'r cynnyrch fod yn ddiffygiol ar ôl yr amser hwnnw. Byddai hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae'r cynhyrchydd yn addasu'r cynnyrch, yn integreiddio neu'n cydgysylltu cydran ag ef, yn awdurdodi neu'n cydsynio i drydydd parti wneud hynny fel rhan o gynnig cynnyrch y cynhyrchydd, neu'n methu â darparu diweddariadau neu uwchraddiadau meddalwedd angenrheidiol. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn cadw diben gwreiddiol yr amddiffyniad drwy warchod diffynnyddion rhag atebolrwydd ddim ond mewn perthynas â diffygion sy'n codi y tu hwnt i'w rheolaeth.



Amddiffyniad risgiau datblygu

Mae'r amddiffyniad risgiau datblygu yn diogelu diffynnydd lle'r oedd sefyllfa gwybodaeth wyddonol a thechnegol, ar yr "adeig berthnasol" (fel arfer, pan ddarparwyd y

cynnyrch), ddim yn golygu y gellid disgwyl i gynhyrchydd cynnyrch tebyg ddarganfod y diffyg tra roedd y cynnyrch dan ei reolaeth. Mae'n adlewyrchu anawsterau wrth ragweld effeithiau hirdymor cynhyrchion technegol arloesol a'r gred na ddylai cynhyrchwyr fod yn atebol am beryglon a oedd yn wirioneddol anrhagweladwy.

Ar yr un pryd, mae'r amddiffyniad yn ddadleuol. Awgrymwyd ei fod yn ffafrio diffynnyddion yn ormodol drwy ailgyflwyno ystyriaethau o fai i'r hyn sydd fel arall yn drefn atebolrwydd caeth. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi caniatáu rhanddirymadau o'r amddiffyniad ac mae nifer o Aelod-wladwriaethau'r UE wedi eithrio ei gymhwysiad mewn perthynas â chynhyrchion penodol. Mae rhai rhanddeiliaid wedi galw am ddileu'r amddiffyniad, ac mae eraill wedi mynegi cefnogaeth gref iddo.

Rydym o'r farn y dylid cadw'r amddiffyniad risgiau datblygu ac y dylai fod yn berthnasol i bob cynnyrch a diwydiant. Nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu ei fod wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth i atal hawliadau teilwng. Rydym hefyd yn cydnabod bod agweddau eraill ar ein cynigion yn ymestyn cwmipas atebolrwydd i fusnesau, ac mae'r amddiffyniad yn chwarae rhan bwysig o ran cydbwysu hyder busnesau ac arloesedd â diogelu defnyddwyr. Fodd bynnag, rydym yn cynnig bod yr amddiffyniad yn cael ei ddiweddarau mewn dwy ffordd.

Yn gyntaf, er mwyn datrys ansicrwydd wrth ddehongli'r amddiffyniad, rydym yn cynnig mai'r cwestiwn perthnasol ddylai fod a oedd sefyllfa gwybodaeth wyddonol a thechnegol hygyrch, wedi'i hasesu'n *wrthrychol*, yn ddigonol i alluogi canfod y diffyg. Ni ddylai'r amddiffyniad ddibynnu ar yr hyn y gellid disgwyl i gynhyrchydd cynnyrch o'r un disgrifiad â'r cynnyrch dan sylw fod wedi'i ddarganfod, fel y darperir ar hyn o bryd yn y CPA. Wrth wneud hynny, mae'n ymddangos bod y geiriad presennol yn symud yr

ymchwiliad oddi wrth sefyllfa'r wybodaeth ei hun tuag at resymoldeb ymddygiad y cynhyrchydd, sy'n anodd ei gysoni â threfn atebolrwydd caeth.

Yn ail, rydym yn cynnig newidiadau i weithrediad yr amddiffyniad lle mae cynhyrchydd yn cadw rôl barhaus yn niogelwch y cynnyrch ar ôl yr "amser perthnasol" (yn gyffredinol, amser cyflenwi), er enghraifft drwy addasiadau neu ddiweddariadau meddalwedd. Yn benodol, pan fydd y cynhyrchydd yn achosi i'r cynnyrch fynd yn ddiffygiol ar ôl iddo gael ei gyflenwi, boed hynny drwy addasu'r cynnyrch neu integreiddio neu gydgyssylltu cydran ag ef, rydym yn cynnig y dylid asesu sefyllfa gwybodaeth wyddonol a thechnegol ar yr adeg y daeth y cynnyrch yn ddiffygiol, yn hytrach nag adeg cyflenwi. Yn yr un modd, os bydd y cynhyrchydd yn achosi i'r cynnyrch fynd yn ddiffygiol (neu barhau'n ddiffygiol) ar ôl amser cyflenwi'r cynnyrch drwy fethu â diweddaru neu uwchraddio meddalwedd, dylid asesu sefyllfa'r wybodaeth wyddonol a thechnegol ar yr adeg y daeth (neu y parhaodd) y cynnyrch yn ddiffygiol.



Y cyfnod stop pell

Y gyfraith gyfredol

Yn gyffredinol, mae'r CPA yn mynnu bod hawliadau'n cael eu dwyn o fewn tair blynedd i'r diweddaraaf o naill ai'r dyddiad y cododd y difrod neu'r dyddiad pryd y cafodd yr hawlydd yr wybodaeth berthnasol am y difrod ("cyfnod

cyfyngu"). Ochr yn ochr â hyn, mae'r drefn yn darparu bod gan hawlydd 10 mlynedd o'r "cyfnod perthnasol" i ddod â'i hawliad, sef yr amser cyflenwi fel arfer. Gelwir hyn yn gyfnod "stop pell".

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Rydym wedi nodi dau fater sy'n haeddu ystyriaeth mewn perthynas â gweithredu'r cyfnod stop pell.

Y cyfnod stop pell: cynhyrchion sy'n cael eu haddasu

Ar hyn o bryd, mae'r cyfnod stop pell yn dechrau ar y dyddiad y cafodd y cynnyrch diffygiol ei gyflenwi. Fodd bynnag, gall addasu cynnyrch ar ôl cyflenwi, gan gynnwys drwy ddiweddariadau ac uwchraddio meddalwedd, gyflwyno risgiau newydd o niwed nad oeddent yn bresennol yn y cynnyrch adeg ei gyflenwi. Nid yw'r stop pell yn ystyried hyn ac felly gallai weithredu'n annheg i atal hawliad.

O'r herwydd, rydym yn cynnig, pan fydd cynnyrch yn cael ei addasu'n sylweddol ar ôl ei gyflenwi, y dylai'r cyfnod stop pell o 10 mlynedd gael ei ailosod. Os caiff cynnyrch ei addasu'n sylweddol o fewn rheolaeth y cynhyrchydd gwreiddiol, dylai'r amser ailgychwyn o'r dyddiad pan fydd y cynnyrch wedi'i addasu yn cael ei roi ar gael. Os yw'r cynnyrch yn cael ei addasu'n sylweddol gan berson sydd y tu hwnt i reolaeth y cynhyrchydd gwreiddiol, dylai'r amser ar gyfer y cynhyrchydd gwreiddiol aros yn ddi-dor a dylai'r amser ar gyfer yr addasydd ddechrau o'r dyddiad pan fydd yn cyflenwi'r cynnyrch wedi'i addasu yn ystod ei fusnes a/neu gyda'r bwriad o wneud elw.

Mae ein cysyniad arfaethedig o addasiad sylweddol yn seiliedig ar rywfaint o gamau cadarnhaol a gymerir gan unigolyn (boed hynny o fewn neu du hwnt i reolaeth y cynhyrchydd gwreiddiol). Fel y nodwyd eisoes

uchod, rydym o'r farn na fyddai "addasu sylweddol" yn cipio hunan-ddysgu arferol system AI.

Y cyfnod stop pell: anafiadau cudd

Mae anaf personol cudd yn un sy'n dod i'r amlwg rywbryd ar ôl damwain neu ddigwyddiad. Gan mai'n ddiweddarach yn unig y bydd symptomau'n dod i'r amlwg, efallai na fydd unigolyn yn gwybod ei fod wedi cael ei niweidio.

Dan y gyfraith bresennol, mae'r cyfnod stop pell o 10 mlynedd yr un mor berthnasol i anafiadau personol cudd a hawliadau eraill am anafiadau personol. Mae hyn yn golygu y gall unigolyn sy'n dioddef anaf personol cudd gael cyfnod byr yn unig i gychwyn achos. Os daw anaf i'r amlwg dros 10 mlynedd ar ôl cyflenwi, ni fydd yn bosibl dwyn hawliad.

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon bod y sefyllfa hon yn creu annhegwch i rai hawl wyr, sy'n cael eu gadael heb hawliad dan y CPA. Ar y llaw arall, gall fod yn anodd amddiffyn hawliadau a gyflwynir flynyddoedd lawer ar ôl cyflenwi, oherwydd efallai na fydd tystiolaeth ar gael mwyach.

Er mwyn cydbwysu'r buddiannau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd, rydym yn cynnig ymestyn y cyfnod stop pell o 10 mlynedd i 25 mlynedd ar gyfer hawliadau anaf personol cudd, ond ddim ond pan nad oedd yn bosibl i'r hawlwydd gychwyn achos o fewn y cyfnod 10 mlynedd cychwynnol oherwydd natur gudd yr anaf. Byddai hyn yn sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n wirioneddol angenrheidiol y byddai hawlwydd yn elwa o'r estyniad. Rydym yn cynnig meini prawf ar gyfer penderfynu a oedd gan unigolyn ddigon o wybodaeth, fel y dylai fod wedi mynd ar drywydd hawliad atebolrwydd am gynnyrch o fewn 10 mlynedd.



Problemau ymarferol gyda siwio diffynnyddion (Pennod 7)

Amnewid partïon y tu allan i'r cyfnod stop pell

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon y gallai hawlwy'r ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r person cywir i'w siwio dan y CPA, yn enwedig pan fydd cynhyrchion yn cael eu gweithgynhyrchu gan gwmnïau o fewn strwythurau grŵp cymhleth. Lle nad yw'n glir pa endid yw'r cynhyrchydd, gall hawlydd gychwyn achos yn erbyn y cwmni anghywir a cheisio ei amnewid am y diffynnydd cywir yn ddiweddarach. Mae anawsterau'n codi pan gychwynnir achos o fewn y cyfnod stop pell, ond ddim ond ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben y gwneir y cais i amnewid.

Y gyfraith gyfredol

Mae dirprwyo parti ar ôl i'r cyfnod stop pell ddod i ben dan y Ddeddf yn cael ei lywodraethu gan adran 35 Deddf Cyfyngiadau 1980, sy'n rhoi disgrisiwn i'r llysoedd ganiatáu amnewid o'r fath lle mae amodau penodol yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, mae'r graddau y gall adran 35 effeithio ar weithrediad y cyfnod stop pell wedi'i gyfyngu o'r blaen gan gyfraith achosion o Lys Cyfiawnder yr UE, a benderfynodd na all hawlydd yn gyffredinol amnewid gweithgynhyrchydd gwreiddiol ar ôl i'r cyfnod stop pell ddod i ben pan ddygwyd yr hawliad gwreiddiol yn erbyn unigolyn gwahanol. Nid yw'r dull hwn yn rhwymo'r llysoedd yng Nghymru a Lloegr mwyach.

Ein cynigion dros dro ar gyfer diwygio

Rydym yn cynnig y dylai llys gael y pŵer i amnewid diffynnydd ar ôl i'r cyfnod stop hir ddod i ben pan fydd yr hawlydd yn bodloni'r

gofynion yn adran 35 o Ddeddf Cyfyngiadau 1980. Dylid trin y gofynion hyn fel rhai wedi'u bodloni os yw'r hawlydd wedi nodi'r diffynnydd yn ôl y disgrifiad cywir yn amgylchiadau'r achos ond wedi defnyddio'r enw anghywir.

Rydym hefyd yn cynnig, pan fydd hawlydd wedi siwio'r cwmni anghywir mewn grŵp a bod y diffynnydd cywir yn endid arall yn yr un grŵp, y dylai'r llys fel arfer ganiatáu amnewid, oni bai y byddai'n annheg gwneud hynny.

Anallu diffynnyddion i fodloni hawliadau

Efallai na fydd hawlydd yn gallu adennill iawndal dan y CPA os yw'r diffynnydd yn ansolfent neu os nad yw'n gallu talu'r hawliad fel arall. Mae hyn yn arbennig o broblemus pan fydd y diffynnydd yn gwmni amlwladol mawr gydag asedau wedi'u rhannu rhwng gwahanol endidau yn y grŵp gyda lefelau amrywiol o yswiriant atebolrwydd am gynnyrch. Mewn achosion o'r fath, gall yr endid grŵp sy'n cynhyrchu'r cynnyrch, ac felly'n ddiffynnydd mewn achos atebolrwydd am gynnyrch, fod yn dlawd o ran asedau ac yn methu â bodloni hawliad llwyddiannus, gan adael hawlydd heb unrhyw iawndal ystyrlon dan y CPA.

Rydym yn cydnabod nad yw'r materion hyn yn unigryw i hawliadau atebolrwydd am gynnyrch dan y CPA ond yn codi'n ehangach pryd bynnag y bydd diffynnydd yn methu â bodloni hawliad. Gallai nifer o fecanweithiau posibl liniaru'r risg hon, gan gynnwys diwygiadau i lywodraethiant corfforaethol ar gyfer cwmnïau sy'n nesáu at ansolfedd; treiddio'r gorchudd corfforaethol; atebolrwydd affeithiwr mewn camwedd; atebolrwydd menter; a hawliau unigolyn sydd wedi'i anafu i hawlio yn erbyn yswiriwr y diffynnydd lle mae ganddo yswiriant atebolrwydd am gynnyrch.

Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai ymestyn y mecanweithiau hyn yn briodol o fewn y prosiect hwn. Mae pob un yn codi materion ehangach, sy'n gofyn am

ddadansoddiad manwl sy'n benodol i gyd-destun y tu hwnt i atebolrwydd am gynnyrch. Felly, rydym yn dod i'r casgliad nad yw ystyried diwygiadau o'r fath yn rhan o gwmpas ein Cylch Gorchwyl.

Dod â hawliadau yn erbyn diffynnyddion sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdodaeth

Bwriad ein cynigion yn ymwneud â'r bobl sy'n atebol dan y CPA yw sicrhau, lle bo'n bosibl, y bydd diffynnydd posibl yn yr awdurdodaeth hon y gellir dwyn hawliad yn ei erbyn dan y CPA. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall yr unig ddiffynnydd posibl fod wedi'i leoli dramor. Gallai hyn godi, er enghraifft, pan fydd hawlydd yn prynu cynnyrch yn uniongyrchol gan gyflenwr tramor. Mewn achosion o'r fath, bydd rheolau cyffredinol cyfraith ryngwladol breifat yn pennu materion sy'n ymwneud ag awdurdodaeth a chyfraith berthnasol yr hawliad. Gan fod y mater hwn y tu allan i gwmpas ein Cylch Gorchwyl, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer diwygio yn y maes hwn.



Asesu effaith diwygio a chwestiynau clo (Pennod 8)

Effaith economaidd

Er mwyn asesu ein diwygiadau arfaethedig, mae angen i ni ddeall effeithiau posibl y gyfraith bresennol a'n cynigion. Bydd y dystiolaeth hon yn dylanwadu ar ddatblygiad ein hargymhellion terfynol ac yn cynorthwyo'r Llywodraeth i'w hasesu gyda golwg ar eu gweithredu.

Felly, rydym yn gofyn am farn ymgynghoreion ac yn gofyn iddynt ddarparu unrhyw dystiolaeth sydd ganddynt i ni ar effaith economaidd y gyfraith bresennol yn ogystal â'n cynigion ar gyfer diwygio. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn tystiolaeth o gostau a manteision y gellir pennu eu gwerth, ond lle nad yw hynny'n bosibl, rydym yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth ansoddol y gall ymgynghoreion ei chynnig.

Effeithiau ar gydraddoldeb

Er mwyn asesu manteision diwygio, rhaid i ni hefyd ystyried a allai ein cynigion gael effeithiau gwahanol ar grwpiau penodol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gall effaith anghyfartal fod naill ai'n anghymesur o negyddol neu'n anghymesur o gadarnhaol.

Rydym yn gwahodd ymgynghoreion i roi gwybod i ni os ydynt yn credu neu os oes ganddynt dystiolaeth neu ddata i awgrymu y gallai unrhyw rai o'n cynigion dros dro arwain at fanteision neu anfanteision i grwpiau penodol neu'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig (gan roi sylw penodol i oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a

mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Cymhwyso tiriogaethol

Fel Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, dim ond i Gymru a Lloegr y mae ein hargymhellion ar gyfer diwygio yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'r CPA yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r un drefn, er ei bod dan ddarn ar wahân o ddeddfwriaeth, hefyd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae ein hadolygiad, a'r argymhellion rydym yn eu gwneud, o bosibl yn berthnasol i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn gwahodd ymgynghoreion i roi unrhyw wybodaeth sydd ganddynt i ni am effaith ein cynigion yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Gallai hyn gynnwys materion sy'n benodol i'r awdurdodaeth y dylid eu hystyried os caiff diwygiadau eu rhoi ar waith, neu, yn achos yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yr effaith pe na bai diwygiadau a roddwyd ar waith yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hymestyn i'r awdurdodaethau hynny. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed am yr effeithiau posibl ar fusnesau pe bai cyfreithiau atebolrwydd am gynnyrch yn wahanol rhwng gwahanol awdurdodaethau yn y DU.

Meysydd diwygio eraill

Rydym yn gwneud amrywiaeth eang o gynigion i ddiwygio cyfraith atebolrwydd am gynnyrch. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod materion nad ydym wedi'u nodi eto ac rydym yn gwahodd ymgynghoreion i ddweud wrthym a oes unrhyw ffyrdd eraill y gellid gwella'r drefn atebolrwydd am gynnyrch.

Credydau lluniau

Clawr: Delwedd wedi'i chynhyrchu gan ddefnyddio Microsoft Copilot

Tudalen 3: nilakkus/iStock

Tudalen 5: tiero/Adobe Stock

Tudalen 11: monsitj/Adobe Stock

Tudalen 13: alvarez/iStock

Tudalen 14: imaginima/iStock

Tudalen 19: Andrii Yalanskyi/iStock

Tudalen 20: 3Dsss/Adobe Stock

Tudalen 22: Nina
Lawrenson/peopleimages.com/Adobe Stock

Tudalen 25: dem10/iStock

Tudalen 27: Anastasiia/Adobe Stock

Tudalen 29: Andrii Yalanskyi/iStock

